EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

COFNODION PEDWERYDD CYFARFOD AR HUGAIN CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

DYDDIAD: 17 Mawrth 2022

LLEOLIAD: Microsoft Teams (rhith-gyfarfod)

Yn bresennol:
Aelodau:

Angela Jardine	Sue Walker
David Williams	Steve Drowley
Berni Tyler	Rosemary Lait
Anne Pitman	Kelly Edwards
Kevin Pascoe	Clare Jones
Eithne Hughes	Jane Setchfield
Nicola Stubbins	

Ymddiheuriadau:
Gwawr Taylor

Swyddogion:

Hayden Llewellyn	Prif Weithredwr
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi
Lisa Winstone	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Beverley Curtis	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (cofnodion)
Jess Tippins	Rheolwr Cyfathrebu CGA (yn arsylwi)
Branwen Edwards	Swyddog Achredu AGA CGA (yn arsylwi)

1. Croeso a materion rhagarweiniol

1.1 Croesawodd Angela Jardine, (*Cadeirydd*) yr aelodau a'r swyddogion i bedwerydd cyfarfod ar hugain Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Gwawr Taylor oedd ar gyfnod mamolaeth.

1.3 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i nodi'r ddwy oedd yn arsylwi; Jess Tippins *(Rheolwr Cyfathrebu CGA)* a Branwen Edwards *(Swyddog Achredu AGA CGA)*

1.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn y gwaith o wneud trefniadau ar gyfer proses adolygu blynyddol yr aelodau. Byddai cyfarfodydd un i un gyda'r Cadeirydd yn digwydd yn ystod yr wythnos yn dechrau 28 Mawrth 2022 ac atgoffodd yr aelodau y byddai'n gofyn iddynt am fynegiadau o ddiddordeb ar gyfer eu hail-benodi gan Lywodraeth Cymru pan fyddai tymor presennol y Cyngor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023.

1.5 Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau sicrhau eu bod ar gael i fynychu'r diwrnod hyfforddiant blynyddol ar 28 Ebrill 2022. Atgoffodd y Cyngor y byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal yn rhithiol a gwahoddodd y Prif Weithredwr i ehangu ar agenda'r diwrnod. Nododd ef y byddai

swyddogion CGA yn cynnal nifer o sesiynau ac y byddai dau siaradwr allanol: Pauline Stephens (Prif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) a Dr Jim Livingstone (Llywydd/Cadeirydd Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon).

1.6 Gwahoddodd y Cadeirydd y Prif Weithredwr i roi diweddariad i'r aelodau ar gyhoeddiad arfaethedig papur safle CGA ar gyflenwi. Nododd fod y papur yn cael ei dreialu ar gyfer adborth ar hyn o bryd gyda grŵp dethol. Ar ôl hynny, byddai CGA yn rhannu fersiwn dan embargo o'r papur gyda Llywodraeth Cymru, ac yn derbyn sylwadau oddi wrthynt cyn ei gyhoeddiad arfaethedig ar 26 Ebrill 2022.

2. Datganiadau o fuddiant

2.1 Datganodd Steve Drowley fuddiant parhaus yn eitem agenda EWC 15/22 fel Cadeirydd Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru.

2.2 Datganodd Kelly Edwards fuddiant parhaus yn eitemau agenda EWC 06/22 a EWC 12/22 fel un o gyflogeion Colegau Cymru.

2.3 Ni chafwyd rhagor o ddatganiadau o fuddiant.

3. Gohebiaeth ac adroddiad y Cadeirydd

3.1 Nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw fusnes i dynnu sylw'r aelodau ato nad ymdriniwyd ag ef eisoes yn adroddiad y Prif Weithredwr yn EWC 01/22.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 18 Tachwedd 2021

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 18 Tachwedd 2021. Roedd yr aelodau'n fodlon cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

4.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. Cael hysbysiad am unrhyw faterion y mae aelodau eisiau eu codi mewn perthynas â'r eitemau 'er gwybodaeth' ar yr agenda (21-26)

5.1 Ni chafwyd hysbysiad am unrhyw faterion.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 25 Ionawr 2022

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion y Pwyllgor Gweithredol a dywedodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i dynnu sylw'r aelodau atynt na fyddid yn ymdrin â hwy yn nes ymlaen ar yr agenda.

6.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 25 Ionawr 2022

7.1 Cyflwynodd Steve Drowley, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio, y cofnodion a dywedodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i dynnu sylw'r aelodau atynt na fyddid yn

ymdrin â hwy yn nes ymlaen ar yr agenda. Nododd ei ddiolchiadau arbennig i swyddogion am y papurau cynhwysfawr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, yn arbennig ynghylch datblygiadau nodedig o ran gwaith y Cyngor.

7.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar 27 Ionawr 2022

8.1 Cyflwynodd Clare Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu, y cofnodion hyn. Nododd ei diolchiadau i Lisa Winstone (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)* a swyddogion CGA am eu gwaith yn sicrhau bod y Cyngor unwaith yn rhagor wedi derbyn sicrwydd sylweddol oddi wrth y set olaf o archwiliadau mewnol. Sicrhaodd y Cyngor bod y Pwyllgor wedi derbyn papurau ac adroddiadau cynhwysfawr ac wedi herio yn adeiladol er mwyn sicrhau bod popeth mewn trefn.

8.2 Ategodd y Cadeirydd ddiolchiadau Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau eraill.

9. Adroddiad oddi wrth y Prif Weithredwr EWC 01/22

9.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar amrywiaeth o faterion na fyddid yn ymdrin â hwy yn rhywle arall ar yr agenda, gan wahodd sylwadau ac ymholiadau gan yr aelodau.

9.2 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff pedwar, rhoddodd y Prif Weithredwr grynodeb o darddiad y mater parhaus ynghylch cynnig Llywodraeth Cymru i ail-ddosbarthu CGA. Nododd ei fod ef, y Cadeirydd a Lisa Winstone, wedi cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru diwethaf ym mis Tachwedd, gan gyflwyno iddynt ddarnau eang o ymchwil ynghylch statws dosbarthiad rheoleiddwyr eraill ar draws y DU. Roedd nifer o gyfarfodydd a drefnwyd ers hynny wedi cael eu gohirio, wrth i swyddogion nodi bod angen mwy o amser arnynt i ystyried y wybodaeth a roddwyd iddynt gan CGA. Byddai aelodau'n parhau i gael y datblygiadau diweddaraf yn y maes hwn.

9.3 Ymhellach, ychwanegodd Lisa Winstone bod y mater wedi codi yn dilyn menter y DU gyfan a fyddai'n gweld holl gyrff y sector cyhoeddus yn cael eu grwpio gyda'i gilydd o ran eu statws dosbarthiad a'u cyllid. Fel y gwyddai'r aelodau, roedd CGA yn gorff annibynnol ac roedd y cyllid grant a dderbyniai gan y llywodraeth wedi'i ddynodi ar gyfer swyddogaethau penodol a gyflawnwyd gan CGA ar ran Llywodraeth Cymru.

9.4 Gan ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Prif Weithredwr bod swyddogion yn monitro'r mater yn fanwl. Ymhen amser, efallai y byddent yn teimlo ei bod yn briodol rhoi gwybod i randdeiliaid eraill am hyn, gan fod y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar incwm CGA a oedd yn dod o ffioedd cofrestreion.

9.5 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff chwech, cyflwynodd y Prif Weithredwr lythyr Cynnig Grant drafft ar gyfer 2022-23 i swyddogion Llywodraeth Cymru ei ystyried ar ddechrau mis Mawrth. Byddai'r aelodau yn cael diweddariadau ar gynnydd ynghylch y mater hwn.

9.6 Nododd paragraff wyth yr adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i wella ei dealltwriaeth o faterion mewn perthynas â chofrestru posibl y gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Cyfwelwyd â'r Prif Weithredwr, y Cadeirydd a Liz Brimble (*Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer*) fel rhan o'r adolygiad ar 14 Mawrth 2022. Roedd yr adroddiad yn cael ei baratoi i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Byddai'r Cyngor yn cael diweddariadau ar y datblygiadau sy'n berthnasol i CGA.

9.7 Gan gyfeirio at baragraffau 13-15, gofynnodd y Prif Weithredwr i'r aelodau nodi bod y Cyngor yn cael ei gynrychioli ar ddau grŵp o randdeiliaid mewn perthynas â staff cymorth dysgu mewn ysgolion. Hefyd, atgoffodd yr aelodau bod y Cyngor i fod i ddatblygu papur safle ar staff cymorth dysgu yn 2023 fel rhan o'i amserlen gwaith polisi. Nodwyd y cynnydd hwn yn gadarnhaol gan aelod a oedd wedi annog rhagor o ymgysylltu â staff cymorth dysgu.

9.8 Nododd y Prif Weithredwr bresenoldeb rhyngwladol CGA, fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 21-24. Tynnodd sylw'r aelodau at y prif araith fideo y byddai'n ei thraddodi yng nghynhadledd AFTRA (Africa Federation of Teaching Regulatory Authorities) ym mis Mai 2022.

9.9 Cafodd yr aelodau wybod bod ymateb cadarnhaol dros ben wedi bod i'r digwyddiadau CGA a gynhaliwyd yn ystod y misoedd diwethaf, a'u bod wedi ennill mwy o sylw wrth i'r gair fynd ar led yn gadarnhaol. Roedd y digwyddiad nesaf gyda'r Athro Ronald E Dahl yn digwydd ar 27 Ebrill 2022 ac anogwyd yr aelodau i'w fynychu os oedd modd.

9.10 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

10. Cyfres ddrafft o gynlluniau Strategol a Gweithredol CGA, a rhai cysylltiedig EWC 02/22

10.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y gyfres o gynlluniau drafft i'w cymeradwyo gan yr aelodau. Diolchodd yn arbennig i Bethan Stacey (*Cyfarwyddwr Datblygu Proffesiynol, Achredu a Pholisi)* a thîm Polisi a Chynllunio CGA am y cynlluniau manwl a thynnodd sylw at y gwaith a gyflawnwyd i fireinio'r gyfres gan gynnwys ei gwedd gyffredinol.

10.2 Esboniodd fod y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol wedi'i chynnwys ers i'r Pwyllgor Gweithredol ystyried y cynlluniau. Gwahoddodd Lisa Winstone i gyflwyno'r manylion cyllidebol i'r aelodau.

10.3 Cyfeiriodd Lisa Winstone yr aelodau at baragraffau 6-12 a nododd fod y gyllideb rhagolwg yn amcangyfrif diffyg o -£448.220 yn 2022-23, ffigur uwch na'r diffyg a amcangyfrifwyd y llynedd. Amlinellodd y prif ffactorau a effeithiodd ar hyn;

- Y cynnydd mewn costau byw a'r ffordd y byddai'n effeithio ar ddyfarniad cyflog Llywodraeth Cymru ar gyfer yr holl staff. Roedd y swyddogion wedi rhagdybio'n ochelgar gynnydd o 2% ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

- Cynnydd cyffredinol yn yr holl gostau oherwydd y gyfradd chwyddiant bresennol ynghyd â chynnydd o 1% mewn taliadau Yswiriant Gwladol i gyflogwyr, a ddaw i rym mis Ebrill 2022.

- Rhagdybiaeth y byddai cyfarfodydd / gwrandawiadau wyneb yn wyneb yn ailgychwyn o fis Medi 2022 ynghyd â chynnydd mewn costau teithio staff ar gyfer digwyddiadau

ymgysylltu, gan gynyddu cost ad-daliadau teithio a chynhaliaeth yn ogystal â chostau cysylltiedig eraill fel llogi lleoliadau / llogi ceir / lluniaeth ac ati.

10.4 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff 12, atgoffodd Lisa Winstone yr aelodau am weddill wrth gefn cyfredol y Cyngor, a nododd ymagwedd CGA wrth bennu ei gyllideb yn ofalus er mwyn rhagweld y canlyniadau mwyaf anffafriol ym mhob senario.

10.5 Nododd yr aelodau y trosolwg manwl ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r gyfres o gynlluniau.

11. Cyfres ddrafft o ddogfennau Llywodraethu Corfforaethol EWC 03/22

11.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y gyfres ddrafft o ddogfennau Llywodraethu Corfforaethol, oedd wedi cael adolygiad arfaethedig. Roedd y gyfres wedi cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, ac ar ôl ei mireinio ymhellach, roedd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i gael ei sylwadau a'i gymeradwyaeth.

11.2 Gan gyfeirio at baragraff 22 yn y Rheolau Sefydlog, awgrymodd un aelod y dylid newid y nifer o aelodau yr oedd eu hangen i alw cyfarfod arbennig o'r Cyngor i'r 'mwyafrif' yn hytrach na 'dau draean', fel oedd yn y drafft. Cytunwyd ar y newid hwn.

11.3 Nid oedd gan yr aelodau ragor o sylwadau nac ymholiadau ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r gyfres o gynlluniau i'w chyhoeddi.

12. Adroddiad cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu EWC 04/22

12.1 Cyflwynodd Liz Brimble yr adroddiad cynnydd hwn a roddodd ddiweddariad i'r aelodau ar waith CGA mewn perthynas â Chofrestru a gweinyddu'r gwaith o ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC) a Sefydlu.

12.2 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff dau, nododd niferoedd y cofrestreion a'r incwm cyfatebol. Fel y dywedwyd yn flaenorol, tynnodd sylw at y ffaith bod nifer y ceisiadau oddi wrth weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion yn uchel, gyda mwy na 2,500 yn fwy o geisiadau unigol wedi dod i law o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

12.3 Dywedwyd bod proses adnewyddu ffioedd cofrestru 2022-23 ar y gweill, gyda chyflogwyr yn gorfod cyflwyno'r ffioedd i'r Cyngor erbyn y dyddiad cau sef 8 Ebrill 2022. Anfonwyd nodyn atgoffa i adnewyddu at y 18,492 o gofrestreion oedd yn talu eu ffioedd yn uniongyrchol ar 7 Chwefror 2022, ynghyd â chyfres o negeseuon atgoffa i dalu'r ffi erbyn 31 Mawrth 2022. Byddai'r broses flynyddol o ddatgofrestru'r rhai oedd yn dewis peidio adnewyddu eu cofrestriadau yn cael ei chynnal ar 11 Mai 2022.

12.4 Fel y nodwyd ym mharagraff 18, roedd ffioedd a gweithdrefnau cofrestru'n destun archwiliad mewnol ym mis Tachwedd 2021, a chafodd cydymffurfiaeth CGA â GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018 eu harchwilio ym mis Chwefror 2022. Canlyniad y ddau archwiliad oedd asesiad cyffredinol o sicrwydd sylweddol heb ganfod unrhyw argymhellion i newid neu wella. Roedd yr aelodau'n arbennig o falch o'r cyflawniad hwn.

12.5 Gan ymateb i ymholiad aelod ynghylch y sefyllfa bresennol yn Wcrain a'r ffigurau a ddarparwyd yn atodiad C yn nodi nifer y cydnabyddiaethau SAC i ymgeiswyr tramor,

cadarnhaodd Liz Brimble bod swyddogion yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos ac y byddent yn cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch y mater petai unrhyw broblemau'n dod i'r amlwg.

12.6 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

13. Uwchraddio / disodli'r Gronfa Ddata Gofrestru EWC 05/22

13.1 Cyflwynodd Liz Brimble y papur hwn a nododd y camau a gymerwyd hyd yma a'r gwaith arall sy'n ofynnol i uwchraddio neu ddisodli cronfa ddata gofrestru CGA. Roedd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio wedi cael gwybod am y datblygiadau yn ei gyfarfod ym mis Ionawr.

13.2 Fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 4-7, dywedwyd bod y prosiect darganfod ar y gweill gyda'r canlyniadau i'w hadrodd yn gynnar ym mlwyddyn weithredol 2022-23.

13.3 Gan ymateb i ymholiad gan aelod ynghylch costiadau rhagamcanol yr uwchraddio / disodli, cadarnhaodd Lisa Winstone bod gan CGA yswiriant seiberddiogelwch eisoes.

13.4 Byddai'r Cyngor yn cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf yn y maes hwn yn ei gyfarfod nesaf.

14. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gategorïau cofrestru newydd ar gyfer CGA EWC 06/22

14.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gategorïau cofrestru newydd ar gyfer CGA. Atgoffodd yr aelodau bod swyddogion wedi codi pryderon yn gyson am yr anghysondebau yn y ddeddfwriaeth gofrestru o ran y categorïau yr ymgynghorir arnynt ar hyn o bryd. Nododd mai hwn oedd y cyntaf o ddau ymgynghoriad oedd yn cael eu cyhoeddi ar y mater a bod swyddogion wedi gweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau yr aed i'r afael â'r holl anghysondebau, ac yr ymgynghorwyd arnynt.

14.2 Nododd y Cyngor y cynnydd cadarnhaol yn arbennig o ran cofrestru staff mewn ysgolion annibynnol, a thrafododd nifer o faterion i'w cynnwys yn ymateb CGA.

14.3 Wrth ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Prif Weithredwr bod swyddogion wedi sefydlu perthynas gadarnhaol gyda'r sector ysgolion annibynnol trwy Gyngor Ysgolion Annibynnol Cymru.

14.4 Gan ymateb i ymholiad ynghylch cymhorthdal Llywodraeth Cymru ar gyfer ffioedd cofrestru, rhoddodd y Prif Weithredwr amcangyfrif o'r nifer posibl o gofrestreion ychwanegol, ac esboniodd fod unrhyw gymhorthdal yn fater i Lywodraeth Cymru.

14.5 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r ymateb drafft yn cael ei ddosbarthu i'r holl aelodau i gael eu sylwadau, gyda'r fersiwn terfynol i'w gyflwyno wedi'i gytuno gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

15. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar sefydlu statudol i athrawon sydd newydd gymhwyso yng Nghymru EWC 07/22

15.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar sefydlu statudol i athrawon sydd newydd gymhwyso yng Nghymru. Atgoffodd yr aelodau fod gan CGA arbenigedd penodol yn y maes o gofio'i rôl yn y broses ers 2006.

15.2 Nododd y pedwar prif faes newid yr ymgynghorir arnynt a gwahoddodd yr aelodau i roi eu sylwadau i swyddogion i'w cynnwys yn ymateb CGA.

15.3 Cytunodd yr aelodau bod y newidiadau arfaethedig yn gadarnhaol ar y cyfan, ond nodasant hefyd bryderon ynghylch athrawon newydd gymhwyso yn cael eu cyflogi llawn amser wrth ddechrau eu cyfnod sefydlu. Nodwyd hefyd bod angen cynyddu cyllid, hyfforddiant a chefnogaeth i fentoriaid er mwyn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

15.4 Diolchodd Bethan Stacey i'r aelodau am eu sylwadau a nododd y byddai ymateb drafft yn cael ei ddosbarthu iddynt ar gyfer eu sylwadau cyn ei gyflwyno ar 8 Ebrill 2022.

16. Canllaw ymarfer da drafft - 'Arweinwyr mewn addysg' EWC 08/22

16.1 Cyflwynodd Liz Brimble y fersiwn drafft o ganllaw ymarfer da diweddaraf CGA. Atgoffodd yr aelodau bod cyfres o ganllawiau ymarfer da y Cyngor (wyth hyd yma) yn cefnogi cofrestreion i ddefnyddio a deall y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Cyflwynwyd y canllaw diweddaraf i'r Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio i gael ei sylwadau yn ei gyfarfod ym mis Ionawr. Ers hynny, cafodd ei ddangos i nifer fach o ymarferwyr fel rhan o gyfres o grwpiau ffocws i gael eu hadborth. Roedd y drafft bellach wedi'i gyflwyno i'r Cyngor i gael ei sylwadau, ac os yn briodol, ei gymeradwyo.

16.2 Trafododd y Cyngor y drafft yn fanwl, ac yn gyffredinol penderfynwyd nad oedd yr iaith na'r cywair a ddefnyddiwyd yn y ddogfen ddrafft yn ategu'r gyfres bresennol o ganllawiau ymarfer da. Nodwyd hefyd er bod y rheoliad a amlinellwyd yn y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol yn sail i'r canllaw, efallai y byddai modd cynnwys ymagwedd fwy cadarnhaol at arweinyddiaeth.

16.3 Gofynnodd yr aelodau am i fersiwn arall o'r canllaw gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mai 2022, cyn ei drafod eto gan y Cyngor, ac os yn briodol, ei gymeradwyo, yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2022. Cytunwyd ar y dull gweithredu hwn.

17. Adroddiad cynnydd Priodoldeb i Ymarfer EWC 09/22

17.1 Cyflwynodd Liz Brimble y papur hwn, oedd yn cynnwys diweddariad ar waith CGA ym maes Priodoldeb i Ymarfer.

17.2 Gan gyfeirio at baragraffau 2-6, gwahoddwyd yr aelodau i nodi nifer yr achosion oedd yn cael eu hystyried gan y tîm Priodoldeb i Ymarfer.

17.3 Fel diweddariad i baragraff naw, dywedodd wrth yr aelodau y disgwylid cynnal 61 o wrandawiadau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda thanwariant rhagamcanol o tua £160,000. Atgoffodd yr aelodau mai amcangyfrif bras oedd y ffigur rhagamcanol gan nad oedd nifer o gostau anhysbys wedi'u cyfrifo eto, gan gynnwys biliau diwedd blwyddyn am 'gwaith ar y gweill' gan y cyfreithwyr sy'n ymchwilio i achosion CGA.

17.4 Fel y nodwyd ym mharagraff 11, roedd 12 o Bwyllgorau Priodoldeb wedi cyfarfod yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22 gyda dau gyfarfod arall yn debyg o gael eu cynnal cyn 31 Mawrth 2022. Fel rhan o'r ffigur hwn, cafodd dau gais eu gwrthod a chafodd un ei ohirio.

17.5 Gan gyfeirio at baragraffau 16 a 17, esboniodd Liz Brimble fod y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol, fel rhan o ddeddfwriaeth, yn ddarostyngedig i adolygiad pob tair blynedd, gyda'r archwiliad nesaf i'w gynnal yn ystod 2022. Cytunodd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio â'r cynnig y dylai adolygiad 2022 fod yn un llai manwl gan fod yr adolygiad blaenorol yn 2019 yn un manwl. Roedd y gwaith adolygu ar y gweill a byddai'r Cyngor yn cael gwybod am unrhyw gynnydd yn ei gyfarfod nesaf.

17.6 Fel y nodwyd ym mharagraff 24, roedd swyddogion yn rhoi'r wedd derfynol ar y dogfennau yr oedd eu hangen i hysbysebu am aelodau ychwanegol o'r panel ar gyfer y gwaith Priodoldeb i Ymarfer. Anogodd Liz Brimble yr aelodau i rannu hyn gyda'u rhwydweithiau.

17.7 Gan ymateb i ymholiad aelod ynghylch nifer yr atgyfeiriadau a ddaeth i law gan CGA o bob awdurdod lleol unigol, cadarnhaodd Liz Brimble fod swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda chyflogwyr ac arweinwyr ymgysylltu er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion deddfwriaethol o ran atgyfeiriadau.

17.8 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

18. Hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg EWC 10/22

18.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a oedd yn rhoi adroddiad cynnydd i'r aelodau ar rôl CGA yn gwaith o hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg.

18.2 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff pedwar, dywedodd fod y gwaith i ddatblygu 'System Olrhain Ceisiadau' ar wefan Addysgwyr Cymru yn mynd rhagddo, a disgwylid ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2022.

18.3 Rhoddodd Bethan Stacey ddiweddariad i'r aelodau ar y gwaith ymgysylltu helaeth sy'n digwydd yn y maes hwn a dywedodd fod swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r sector addysg uwch a'r sector addysg oedolion trwy ymgyrch digidol.

18.4 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

19. Adroddiad cynnydd ar Ariannu Sefydlu EWC 11/22

19.1 Cyflwynodd Bethan Stacey yr adroddiad hwn a roddodd ddiweddariad i'r aelodau ar rôl CGA yn y gwaith o weinyddu trefniadau ariannu, olrhain a chofnodi Sefydlu yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru.

19.2 Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff pedwar oedd yn nodi bod nifer yr athrawon newydd gymhwyso oedd yn ymgymryd â'r broses Sefydlu trwy gyfnod hysbys o gyflogaeth mewn ysgol wedi cynyddu 472 o gymharu â'r llynedd. Cytunwyd ar atodiad i'r Llythyr Cynnig Grant er mwyn i CGA gyflawni'r gwaith ychwanegol hwn yn y flwyddyn ariannol 2021-22, fel y nodwyd ym mharagraff 20.

19.3 Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad cynnydd.

20. Adroddiad ar safonau proffesiynol a phrosiectau tymor byr eraill Llywodraeth Cymru
EWC 12/22

20.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn oedd yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar bedwar prosiect sy'n cael eu cyflawni ar ran Llywodraeth Cymru.

20.2 Fel diweddariad pellach i'r papur, dywedwyd bod swyddogion wedi cwblhau cyfres o grwpiau ffocws gyda Choleg Sir Benfro a Choleg Cambria yn ddiweddar, yn trafod y safonau proffesiynol ar gyfer athrawon AB ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith.

20.3 Nododd y Cyngor y gwaith ymgysylltu cadarnhaol â cholegau yn ogystal â'r ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith, a diolchodd i swyddogion am y cynnydd calonogol yn y maes hwn.

20.4 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn y diweddariad.

21-26. Eitemau er gwybodaeth

Cafodd yr aelodau bapurau "er gwybodaeth" ar y canlynol:

- Adolygiad chwarterol **(EWC 13/22)**
- Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon **(EWC 14/22)**
- Marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid yng Nghymru **(EWC 15/22)**
- Pasbort Dysgu Proffesiynol **(EWC 16/22)**
- Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru **(EWC 17/22)**
- Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol a galwadau am dystiolaeth **(EWC 18/22)**

Yna symudodd y Cyngor i sesiwn breifat.